# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Plant Golden Grove**

**Ysgol Golden Grove**
**Orange Way**
**Penfro**
**SA71 4DP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/01/2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb Plant Golden Grove wedi'i leoli yn Ysgol Golden Grove ym Mhenfro. Mae ar agor rhwng 3pm a 5.30pm, bum diwrnod yr wythnos yn ystod tymor yr ysgol. Mr Andrew Williams yw'r Person Cofrestredig ar gyfer y gwasanaeth a Samantha Regan yw'r Person â Chyfrifoldeb. Mae'r clwb yn cynnig cyfanswm o 24 o leoedd ar gyfer plant rhwng tair oed ac 11 oed. Siaredir Cymraeg a Saesneg.

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arwain a Rheoli** | **Da** |

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae trefniadau rheoli Clwb Plant Golden Grove wedi newid yn ddiweddar. Mae'r person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb yn gweithio'n dda fel tîm ac yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r plant yn elwa ar amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau a gynlluniwyd a chwarae rhydd. Mae'r plant yn cael hwyl ac yn mwynhau'n fawr wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae o'u dewis. Maent yn hapus ac yn hyderus ac maent yn cymryd rhan yn llawn. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, mae ganddynt ddiddordeb gwirioneddol yn eu barn ac maent yn eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pawb yn y gwasanaeth yn cael lleisio barn a bod cydberthnasau cadarnhaol yn cael eu meithrin, gan gynnal safonau uchel o ofal ar gyfer y plant. Mae'r amgylchedd yn cynnig lle ardderchog ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau sy'n gwella datblygiad corfforol y plant. Mae'r partneriaethau â'r ysgol, y rhieni a'r gofalwyr yn gadarnhaol iawn. Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol.

**2. Gwelliannau**

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi gwneud y canlynol:
• gosod cyfarpar dringo a chydbwyso awyr agored ac adeiladu ardal chwarae pêl-droed/pêl-rwyd maint llawn.

**3. Gofynion ac argymhellion**

- Mae'r argymhellion wedi'u nodi ar ddiwedd yr adroddiad

## 1. Llesiant Rhagorol

### Crynodeb

Mae'r plant yn cael gwasanaeth gwych sy'n darparu gofal cynnes a magwrus a phrofiadau cadarnhaol. Maent yn mwynhau amrywiaeth eang o adnoddau a gweithgareddau rhagorol sy'n hybu eu profiadau chwarae a chymdeithasol cyffredinol. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol ag aelodau o'r staff a'i gilydd ac maent yn cymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau chwarae o'u dewis. Mae'r plant yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

Caiff y plant gyfleoedd ardderchog i ddewis eu gweithgareddau yn rhydd. Maent yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel iawn yn y lleoliad. Mae'r plant yn symud rhwng gweithgareddau y mae'n hawdd iddynt gael gafael arnynt, ac mae dymuniadau'r plant yn llywio'r gwaith cynllunio dyddiol. Er enghraifft, maent yn cael datblygu syniadau celf a chrefft, helpu i ddewis eu byrbrydau a'u coginio, a dilyn themâu a/neu gymryd rhan mewn digwyddiadau megis diwrnod mabolgampau a chystadlaethau chwaraeon. Mae'r plant yn hyderus iawn wrth benderfynu ble maent am chwarae. Er enghraifft, dewisodd llawer o'r plant chwarae yn yr awyr agored, tra bod eraill wedi mwynhau gemau dan do. Maent wrth eu bodd â'r dewis o deganau ac adnoddau, gyda theganau byd bach, ffigurau antur, doliau ac ategolion, gemau bwrdd, llyfrau a bwrdd rhyngweithiol ar gael. Yn ogystal, gallant wneud gweithgareddau celf a chrefft a chwarae rhydd yn gyffredinol yn yr awyr agored, gan chwarae pêl-droed, dal, cuddio a defnyddio'r tai chwarae i greu cuddfannau. Roedd eraill yn mwynhau amser tawel, gan ymlacio wrth ddarllen llyfrau neu sgwrsio â'i gilydd.

Caiff lleisiau'r plant eu clywed ac ymatebir yn gadarnhaol iddynt. Croesewir eu syniadau a gwrandewir arnynt. Roedd plentyn ar ben ei ddigon yn dweud wrthym am wneud pizzas ac ysgytlaethau, gan ddweud *“I can’t wait to do that again, it was such fun and lovely food and I could put whatever toppings I liked on to my pizza.”* Mae'r plant yn gyfforddus a cheir cydberthnasau cadarnhaol â'u gofalwyr. Roedd y plant yn mynd at y staff i gael sgwrs ac yn eu cynnwys yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae gêm o ‘Monopoly’. Nid oedd ein presenoldeb yn poeni dim ar y plant, a gwnaethant ein gwahodd yn aml i ymuno yn eu chwarae. Roedd hyn yn dangos eu bod yn teimlo'n ddiogel yn y gwasanaeth.

Mae'r plant yn deall sut i reoli eu hymddygiad. Maent yn rhannu o'u gwirfodd ac yn cymryd eu tro gyda ffrindiau yn ystod gweithgareddau chwarae. Er enghraifft, wrth ddarlunio a chreu pethau ar y bwrdd rhyngweithiol. Maent yn dangos parch a chwrteisi. Roedd eu moesau'n berffaith wrth iddynt ddweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’ a helpu i glirio eu llestri ar ôl cael byrbryd. Gwnaethant eistedd wrth y bwrdd drwy gydol amser byrbryd ac ni wnaethant adael y bwrdd nes iddynt orffen bwyta. Roedd y plant hŷn hefyd yn cefnogi'r plant iau yn ystod amser byrbryd, gan estyn y bwyd i'r plant iau gyntaf.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd ardderchog i ddatblygu ac ehangu eu diddordebau. Mae'r plant yn ymgysylltu â'u chwarae, ac yn ymddiddori ac yn ymgolli ynddo, gan fod y gweithgareddau yn eu hysgogi ac yn eu denu. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig sy'n mwynhau archwilio'r amgylchedd a gwnaethant barhau i ddangos diddordeb drwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, ymatebodd grŵp o blant yn llawen i gêm o scrabble, gyda grŵp bach yn chwerthin yn llawn cyffro wrth iddynt chwarae gêm paru cardiau. Roedd pob un o'r plant yn mwynhau eu chwarae yn frwd. Roedd rhai o'r plant yn gystadleuol wrth chwarae gemau pêl-droed, gan herio ei gilydd â'u sgiliau pêl-droed, tra bod plant eraill yn mwynhau chwarae rôl yn ddi-dor, gan ddefnyddio tai chwarae amrywiol i greu cuddfannau. Dywedodd y plant wrthym eu bod wedi cael llawer o hwyl yn yr ardal goetir yn creu cuddfannau ac yn arbrofi drwy ddefnyddio mwd a brigau i wneud pastai a diodydd mwd yn ogystal â dysgu am natur. Mae'r cyfarpar dringo a chydbwyso newydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i'r plant gael profiadau corfforol heriol. Yn ystod yr haf, dywedodd y plant wrthym eu bod yn helpu i wneud pizzas yn yr awyr agored yn y popty pizza. Roedd y plant hefyd yn ymestyn eu dysgu drwy chwarae. Er enghraifft, gwnaethant gyfrif arian a phrisio eiddo o'r drutaf i'r rhataf ar y bwrdd Monopoly, gan wella eu sgiliau mathemategol.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd ardderchog i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth. Yn ystod amser byrbryd, mae'r plant yn casglu eu plât a'u cwpan eu hunain, yn gweini byrbryd iddynt eu hunain, yn gwneud eu wrapiau a/neu eu brechdanau eu hunain ac yn arllwys eu diodydd eu hunain. Roeddent yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo yn annibynnol ac yn cael gafael ar y teganau, y gemau a'r deunyddiau celf a chrefft roeddent am chwarae â nhw. Roedd y plant yn eistedd gyda'i gilydd mewn grwpiau bach yn mwynhau sgwrsio â'i gilydd am eu diwrnod yn yr ysgol. Roedd llawer o chwerthin, gwenu a hwyl.

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn gymwys, yn wybodus ac yn brofiadol. Maent yn creu profiadau priodol i'r plant ddatblygu ffordd iach o fyw ac yn hyrwyddo gofal y plant. Mae'r staff yn darparu gofal cefnogol a sensitif ac mae ganddynt ddisgwyliadau cyson a realistig o'r plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r gwasanaeth yn darparu lefel dda iawn o ofal ymatebol, sy'n diwallu anghenion unigol y plant mewn amgylchedd hwyliog a gofalgar. Maent yn gymwys, yn llawn cymhelliant ac yn cydweithio'n dda fel tîm cryf. Maent yn gyfarwydd iawn ag ethos y gwasanaeth ac yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau, gan eu rhoi ar waith yn hyderus ac yn ddidrafferth, gan sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn brofiadol iawn ac wedi'u hyfforddi'n dda hefyd.

Mae'r staff yn defnyddio eu gwybodaeth i hyrwyddo'r canlyniadau a'r llesiant gorau i'r plant yn eu gofal. Maent yn deall eu cyfrifoldebau o ran diogelu'r plant. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar Amddiffyn Plant, Cymorth Cyntaf a Hylendid Bwyd. Mae cofnodion ysgrifenedig ar gael ynghylch unrhyw feddyginiaeth a roddir yn ogystal â chaniatâd y rhieni/gofalwyr. Roedd y rhieni/gofalwyr wedi llofnodi a chydnabod y nodiadau. Caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi a rhennir y manylion â'r rhieni. Mae'r ddarpariaeth yn aelod o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae gan y staff wybodaeth ymarferol o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), a rennir â'r rhieni. Mae'r arweinydd yn gallu dangos dealltwriaeth gyffredinol o'r risgiau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc a nodi plant unigol a all fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio o dan Ddyletswydd Prevent.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw i'r plant ac yn defnyddio systemau hylendid da. Er enghraifft, maent yn glanhau byrddau ac arwynebau paratoi bwyd cyn ac ar ôl eu defnyddio, ac yn gwisgo menig/ffedogau wrth baratoi bwydydd. Caiff byrbrydau eu paratoi'n ddiogel, maent yn gytbwys o ran maeth ac mae eu hansawdd a'u maint yn dda, gan ddilyn argymhellion Canllawiau Bwyd ac Iechyd Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Roedd y plant yn golchi eu dwylo fel rhan o arferion y sesiwn. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd.

Mae'r staff yn rheoli ymddygiad yn gyson ac mewn modd priodol ar gyfer oedran y plant, gan barchu eu lefelau o ddealltwriaeth ac aeddfedrwydd. Mae polisi rheoli ymddygiad ar waith, y mae'r staff yn ei ddilyn, gan hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Maent yn ymddwyn fel modelau rôl da, gan drin ei gilydd a'r plant â pharch ac mewn ffordd ystyriol. Roeddent yn atgyfnerthu moesau da a chlywsom y staff yn canmol ac yn cydnabod ymddygiad a gwaith da yn aml, a oedd yn cael ei werthfawrogi gan y plant wrth iddynt wenu'n llawen. Er enghraifft, rhoi gwybod iddynt eu bod wedi bod yn garedig ac yn ystyriol a diolch iddynt am helpu. Drwy gydol y sesiwn, nid oedd angen i'r staff atgoffa'r plant i drin ei gilydd garedig, yn ystyriol ac yn ofalgar gan eu bod yn gwneud hyn yn naturiol a'u bod yn gwerthfawrogi ei gilydd yn fawr.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol ac mae hyn yn helpu i sicrhau bod y sesiynau'n rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau ac mae'r plant yn cymryd rhan yn frwd drwy gynnig awgrymiadau a syniadau. Er enghraifft, roedd y plant yn ymestyn eu dysgu drwy chwarae, gan gynnwys sgiliau mathemategol. Roedd tystiolaeth o hyn wrth i'r plant chwarae gêm o Monopoly lle roeddent yn cyfrif arian ac yn pennu'r eiddo rhataf a drutaf ar y bwrdd. Caiff unrhyw blant sydd ag anghenion ychwanegol eu cefnogi mewn partneriaeth â rhieni a/neu ofalwr y plentyn. Clywsom y staff yn siarad Cymraeg â'r plant yn aml, gan ddatblygu defnydd a dealltwriaeth y plant o'r iaith.

## 3. Yr Amgylchedd Rhagorol

### Crynodeb

Mae gan y clwb ardaloedd dan do ac awyr agored o fewn yr ysgol ac ar safle'r ysgol. Mae'r amgylchedd wedi'i gynllunio'n rhagorol ac mae'n groesawgar ac yn addas ar gyfer plant, gan gynnig mannau ysgogol ar gyfer chwarae arbrofol, rhydd a chreadigol. Mae'n darparu amgylchedd cyfoethog i'r plant ar gyfer chwarae a chymdeithasu. Mae systemau effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn addas ar gyfer plant, gydag adnoddau chwarae a dysgu priodol ar gael. Mae'n ysbrydoli'r plant, gan roi'r rhyddid iddynt symud o gwmpas yn ddiogel, bod yn chwilfrydig ac archwilio eu hamgylchedd i'w lawn botensial. Mae'r adnoddau, y teganau, y cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer anghenion ac ystod oedran y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr systemau datblygedig ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y plant a sicrhau bod yr amgylchedd yn lle diogel i'r plant chwarae, dysgu a chael hwyl ynddo. Mae ffens ddiogel o gwmpas tir yr ysgol. Mae'r ystafelloedd chwarae dan do yn ddiogel ac ni all unigolion anawdurdodedig gael mynediad iddynt. Caiff dogfennau adnabod ymwelwyr eu cadarnhau wrth iddynt gyrraedd ac mae cofnod ymwelwyr ar waith. Caiff asesiadau risg a rhestrau gwirio dyddiol eu cwblhau ar gyfer pob rhan o'r amgylchedd a ddefnyddir gan y clwb ar ôl ysgol, sy'n sicrhau bod y safle yn weithredol ac yn drefnus. Pan nodir risgiau, dywedwyd wrthym fod staff cynnal a chadw'r adeilad yn mynd i'r afael â nhw ar unwaith. Dangosodd y person â chyfrifoldeb y gall nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg gan ei bod wedi rhoi gwybod bod y system goleuadau allanol yn ddiffygiol. Ymdriniwyd â hyn yn syth ar ôl i'r mater gael ei godi.

Gwelsom ffeil yn cynnwys dogfennaeth drefnus iawn, a oedd yn dangos bod yr arweinwyr a'r staff yn dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol. Er enghraifft, cynhelir profion ar y system trydan a gwres, y goleuadau argyfwng a'r cyfarpar tân, a chaiff ymarferion tân rheolaidd eu cynnal. Esboniodd y person â chyfrifoldeb fod y plant yn cael eu goruchwylio pan fyddant yn yr awyr agored a bod yr ardal awyr agored yn cael ei harchwilio cyn i'r plant ddefnyddio'r ardal hon. Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei le.

Ar y cyfan, mae cynllun a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo heriau addas, profiadau chwarae a chyfleoedd dysgu y mae'r plant yn cael budd ohonynt. Mae'r amgylchedd yn rhoi lle i'r plant symud o gwmpas yn rhydd, gan eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Oherwydd addasrwydd a dyluniad yr amgylchedd, mae'r plant yn llawn diddordeb ac egni ac yn ffynnu drwy gydol eu hamser yno. Y brif ystafell y mae Dechrau'n Deg yn ei defnyddio yn ystod y dydd a ddefnyddir gan y clwb yn bennaf, gydag ystafell ddosbarth ychwanegol a neuadd fawr ar gael i'w defnyddio. Mae'r ystafell wedi'i dylunio'n dda fel y gall y plant symud yn hawdd o un ardal chwarae i'r llall, yn ogystal â chael mynediad uniongyrchol i ardal chwarae awyr agored bwrpasol anferth, gan gynnig amrywiaeth a dewis ardderchog i'r

plant.  Roedd defnydd da yn cael ei wneud o ddeunyddiau naturiol, yn enwedig yn yr ardal goetir. Gwelsom fod adnoddau ar gael i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol megis doliau a llyfrau a bod llawer o gyfleoedd i ddathlu digwyddiadau diwylliannol.  Mae adnoddau'r plant o safon uchel ac maent ar gael yn hawdd mewn mannau storio lefel isel, gydag adnoddau ychwanegol yn cael eu storio mewn cwpwrdd sy'n hygyrch i'r plant. Maent yn elwa ar amrywiaeth eang o adnoddau o safon gan eu bod yn cael defnyddio cyfarpar yr ysgol. Roedd y defnydd ardderchog o le ac adnoddau yn diwallu anghenion y plant ac yn cynnal eu diddordeb a'u chwilfrydedd.

## 4. Arwain a Rheoli — Da

### Crynodeb

Mae trefniadau arwain a rheoli'r gwasanaeth wedi newid dros y misoedd diwethaf. Mae'r arweinwyr yn mynd ati i adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarperir a'r sgiliau arwain a rheoli.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ei rhannu'n effeithiol â'u tîm. Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i fonitro gwelliannau a sicrhau eu bod yn parhau ac yn ymrwymedig i wella datblygiad proffesiynol y staff. Er enghraifft, mae llawer o'r polisïau a'r gweithdrefnau a'r Datganiad o Ddiben wedi'u diweddaru a'u hadolygu. Adolygwyd ffeiliau'r staff yn ddiweddar ac maent yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol yn unol â'r rheoliadau, ac eithrio geirdaon a gedwir gan y Cyngor Sir oherwydd GDPR. Cadarnhaodd y person cofrestredig ei fod wedi gweld y geirdaon a'i fod yn hyderus eu bod yn ddilys, a gydnabuwyd drwy ddatganiad yn cadarnhau addasrwydd y staff i weithio gyda phlant.

Mae'r arweinwyr yn mynd ati i gefnogi a chynnwys y staff i rannu eu syniadau a/neu eu hawgrymiadau, er enghraifft drwy gyfarfodydd tîm a thrafodaethau agored anffurfiol. Mae systemau effeithiol ar waith o ran prosesau recriwtio a sefydlu ac mae diwylliant cryf o ddatblygiad parhaus gan fod yr arweinwyr a'r staff yn rhagweithiol wrth nodi unrhyw gyfleoedd hyfforddi sy'n gwella eu gwybodaeth am ofal plant. Er enghraifft, mae llawer o'r staff wedi cyflawni eu cymhwyster gwaith chwarae ac mae'r person â chyfrifoldeb yn gweithio tuag at gymhwyster gofal plant lefel 5.

Mae'r arweinwyr yn monitro cynnydd a datblygiad personol y staff drwy oruchwyliaeth un i un ac arfarniad blynyddol. Mae gan yr arweinwyr systemau datblygedig o ran dogfennau a threfniadau cadw cofnodion y gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr yn cadw cofnodion gofynnol mewn perthynas â gwybodaeth bersonol y plant, cofnodion damweiniau, caniatâd meddygol brys, digwyddiadau a phresenoldeb mewn modd trefnus.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu system hunanwerthuso gynhwysfawr a oedd yn cynnwys prosesau cadw cofnodion effeithiol a system sy'n gwerthuso adborth gan y staff, y rhiant, y gofalwyr a'r plant, a gaiff ei dadansoddi'n effeithiol er mwyn helpu i reoli a gwella'r gwasanaeth a ddarperir, yn ôl yr angen. Meddai'r staff, *“I have no issues with them and always feel my needs are met.”* Gwnaethant ddweud hefyd, *“The leader is always open to new ideas and we will try to improve the setting as a team.”*

Mae'r bartneriaeth â'r rhieni yn dda iawn ac yn sefydledig. Caiff cyfranogiad rhieni ei groesawu. Mae'r arweinwyr yn achub ar bob cyfle i ymgysylltu â'r rhieni er mwyn gweithio mewn partneriaeth i hybu llesiant eu plentyn. Gwelsom adborth llawn canmoliaeth gan y rhieni a'r gofalwyr. Ymdriniwyd o ddifrif ag unrhyw awgrymiadau, er enghraifft ymestyn oriau agor y clwb. Mae sylwadau'r plant wedi sicrhau eu bod yn gallu defnyddio cyfarpar

chwaraeon. Meddai'r rhieni y cawsom sgwrs â nhw, *“I am very happy with the club, my child thoroughly enjoys coming here”, “My child goes in happy and leaves happy.” “All the staff have been very supportive and helpful”, “My child is very happy and settled”, “Staff are excellent”* a *“My child can’t wait to come here.”*

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaed yr argymhellion canlynol:

- Dylid anfon copi o'r Datganiad o Ddiben wedi'i ddiweddaru i AGC
- Dylid diweddaru'r polisi Diogelu mewn perthynas â 'Dyletswydd Prevent'.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

• Cynhaliodd un arolygydd ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth, a hynny am dair awr ar 07 Ionawr 2020. Rhoddwyd adborth a graddau ar adeg yr arolygiad.

• Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt yng Nghlwb Plant Golden Grove.

• Gwnaethom siarad â'r person cofrestredig, y person â chyfrifoldeb, y staff, rhieni/gofalwyr a nifer o'r plant.

• Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar gofrestrau, contractau/cytundebau, y datganiad o ddiben, sampl o bolisïau'r clwb a detholiad ar hap o ffeiliau'r staff.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Person Cofrestredig** | **Andrew Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **3 – 11 oed** |
| **Oriau agor** | **3:00pm i 5:30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **20 Mai 2016** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **07 Ionawr 2020** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 03/03/2020